**CYNGOR CYMUNED LLANNON COMMUNITY COUNCIL**

# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Cymuned Llannon a gynhaliwyd ar

## Dydd Mercher Mehefin 15fed am 6.30yh

## Cynhaliwyd y cyfarfod via Zoom

## Dechreuodd y cyfarfod am 6:30yh

### Cofnod rhif 36 – Aelodau'n Bresennol

Y Cynghorydd M Jones (MJ)
Y Cynghorydd L Williams (LW) (wedi cyrraedd yn hwyr)
Y Cynghorydd C Davies (CD)
Y Cynghorydd E Dole (ED)
Y Cynghorydd R Lloyd-Davies (RD)
Y Cynghorydd J Owen (JO)
Y Cynghorydd R Jones (RJ)
Y Cynghorydd D Jones (DJ)
Y Cynghorydd L Davies (LD)
Y Cynghorydd S Stewart (SS)
Y Cynghorydd P Owen (PO)

**Hefyd yn bresennol:** Mrs Clare Hope – Clerc
**Cyfieithydd**: Mr Hefin Jones
**Cofnodwyd gan**: Mrs Wendi Freeman

**Yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd J Owen, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod.**

### Cofnod rhif 37 – Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorydd Christopher Bowkett – Rhesymau Personol

### Cofnod rhif 38 – Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Dot Jones: Cyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraethwyr a benodwyd gan yr AALl yn Ffederasiwn y Tymbl a Llechyfedach, a mam y Cynghorydd Rhys Jones.

Y Cynghorydd Llinos Davies: Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn briod â'r Cynghorydd Christopher Davies.

Y Cynghorydd Sarah Stewart – Rhiant Llywodraethwr yn Ysgol Penygroes.

Y Cynghorydd Christopher Davies – yn briod â'r Cynghorydd Llinos Davies.

Y Cynghorydd Rhys Jones – mab y Cynghorydd Dot Jones.

Y Cynghorydd Ruth Lloyd-Davies – Aelod Pwyllgor Cyfeillion y Coetir.

**Cofnod rhif 39 – Ystyried materion plismona.**

Roedd y Clerc wedi hysbysu'r Cyngor nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth ond, serch hynny, mae DJ a LD ill dwy wedi gwneud cais bod y Clerc yn derbyn gwahoddiad i gyfarfodydd y Tîm Plismona'r Gymdogaeth yn y dyfodol.

Roedd DJ wedi mynychu cyfarfod y Tîm Plismona'r Gymdogaeth yn ddiweddar – roedd 14 hysbyseb ymddygiad gwrth-gymdeithasol wedi'u cyhoeddi yn ardal Cross Hands, ac mae'r tîm yn monitro'r dfenydd o feiciau modur oddiar y ffordd.

**Ymunodd y Cynghorydd Lesley Williams â'r cyfarfod a chymerodd y Gadair, gan barhau i lywyddu ar y cyfarfod o'r adeg hon ymlaen.**

**Cofnod rhif 40 – Cadarnhau'r Cofnodion.**

**a) Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 18fed 2022.**

*Roedd ED wedi cynnig bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 18fed 2022 yn gywir.*

*JO – Wedi eilio.*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**b) Y Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol a gynhaliwyd ar Fai 25ain 2022**.

*Roedd RJ wedi cynnig bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 25ain 2022 yn gywir.*

*SS – Wedi eilio*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**<u>Cofnod rhif41 – Materion yn codi o'r Cofnodion dilys.</u>**

Roedd LD wedi holi os oedd y Ganolfan Deulu wedi derbyn rhodd tuag y dathliadau Jiwbilî ac, os roeddent, beth oedd cyfanswm y rhodd?

Roedd y Clerc wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn rhodd o £300.

**<u>Cofnod rhif 42 – Derbyn adroddiad oddiwrth y Clerc.</u>**

Nododd y Clerc ei bod wedi dosbarthu ei hadroddiad misol yn flaenorol.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach.

**<u>Cofnod rhif 43 – Trafod y ceisiadau am ganiatâd cynllunio canlynol:</u>**

**PL/03414** – Sied i gadw offer cynnal a chadw tiroedd personol, megis Kawasaki Mule a threlar, peiriant ffustio, peiriant torri glaswellt y mae modd eistedd arno, peiriant torri glaswellt hunanyriant, strimwr, llif gadwyn, offer torri cloddiau, storfa gwair a gwellt, storfa logiau a thŵls amrywiol. Hefyd llain galed (a osodwyd yn ei lle yn wreiddiol pan wnaethpwyd cais am ganiatâd cynllunio i drosi garej yn 2015 (Ôl-weithredol) -

Ponderosa, Heol Pontarddulais, Cross Hands, Llanelli, SA14 6PD.

***Ni nodwyd unrhyw sylwadau***

**b) PL/03933 –** Gollwng Amodau rhif 5, 6, 9 a 10 o S/36934 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, Datganiad Diogelu Amgylcheddol, Cynllun Cynllunio Ecolegol a Chynllun Plannu).

***Ni nodwyd unrhyw sylwadau***

**c) PL/04100 –** Diwygiad Ansylweddol i S/35926 (Cynlluniau'r Safle a'r Mathau o Dai).

Mae DJ wedi bod yn trafod gyda phreswylwyr yr ardal, ac mae ganddynt bryderon ynghylch mynediad at y safle tra bod y gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen, gan fod ond ychydig iawn o le i symud cerbydau pan fyddant yn trosgludo nwyddau adeiladu.

***Roedd LD wedi awgrymu bod y Cyngor yn cyflwyno llythyr o gefnogaeth ar ran y preswylwyr.***

**<u>Cofnod rhif 44 – Derbyn gwybodaeth am Dafarn / Hwb Cymunedol Llannon.</u>**

Dywedodd y Clerc wrth y Cyngor ei bod wedi cwrdd â'r grŵp, ac wedi cynnig cefnogaeth y Cyngor Cymuned. Roedd y Cyngor wedi awgrymu y byddai'n syniad da

pe byddai cynrychiolaeth o'r cynghorwyr cymuned/ sir ar bwyllgor y grŵp, i gynnig cymorth a chyngor. Bydd y Clerc yn trosglwyddo'r neges hwn i'r grŵp.

**<u>Cofnod rhif 45 – Derbyn gwybodaeth ynghylch Cae Hamdden Cross Hands.</u>**

Mae'r Cyngor Sir wedi'i hysbysu o'r problemau gyda'r carthbwll, ac wedi derbyn tystioleth ffotograffig ei fod yn gorlifo. Mae DJ wedi gofyn bod swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal ymweliad safle gyda hi, ond heb dderbyn ymateb hyd yn hyn.

Mae arwyddion wedi'u harchebu ar gyfer y cae hamdden, er mwyn atal y defnydd o gerbydau modur ar y cae.

Mae trafodaeth ynghylch defnydd y cae yn mynd yn eu blaen. Mae Clwb Rygbi Cefneithin, Clwb Pêl-droed Drefach, Clwb Rygbi a Chlwb Pêl-droed y Tymbl a Thîm Rygbi Merched Mynydd Mawr oll wedi datgan diddordeb brwd mewn defnyddio'r safle.

Mae Pwyllgor Carnifal Cross Hands wedi gofyn am estyniad amser i ddarparu'r gwaith papur y gofynnwyd amdano. Os oes angen cymorth ar y pwyllgor i lunio asesiad risg, mae'r Clerc wedi cynnig helpu. Mae'r Clerc wedi derbyn datganiad banc oddiwrth Bwyllgor y Carnifal, ac mae'r balans banc yn ymddangos yn iachus iawn. Roedd y Clerc wedi nodi bod arian wedi'i fancio o'r carnifal blaenorol, a gynhaliwyd tair blynedd yn ôl. Nid ydynt wedi llwyddo i ddarparu cyfrifon.

*Roedd ED wedi cynnig rhoi estyniad wythnos o hyd iddynt ddarparu'r gwaith papur ac, oherwydd y diffyg cyfrifon a'r balans iachus, ni fyddwn yn cynnig rhodd ariannol.*

*Eiliwyd gan - PO*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid*

**<u>Cofnod rhif 46 -Trafod Bid Llwybrau Diogel y Tymbl.</u>**

Mae bid wedi'i lunio i uwchraddio llwybrau troed yn yr ardal ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Ers i'r bid gael ei gyflwyno mae'r Llywodraeth wedi newid ychydig ar y trefniadau ac yn awr yn edrych ar lwybrau diogel y tu allan i ysgolion – o ganlyniad, mewn rhai ardaloedd mae heolydd sydd yn union y tu allan i ysgolion yn cael eu cau ar adegau penodol o'r dydd, e.e. 8.00 - 9.15yb. O ran Heol-y-Neuadd ni fyddai hyn yn bosibl ar unrhyw adeg y dydd, felly mae llwybrau diogel yn ystyried ail-gyfeirio'r mynediad i'r ysgol i Heol Bethesda. Roedd DJ wedi mynegi ei phryder cyn hyn os y byddai perygl bod y plant yn credu bod yr heol ar gau drwy'r amser, yn ystod gwyliau'r haf, er enghraifft, ac yn peryglu eu bywydau. Rhaid cyflwyno unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb erbyn diwedd mis Gorffennaf, a bydd y Clerc yn diweddaru'r Cyngor yngylch y cynnydd sy'n cael ei wneud.

**<u>Cofnod rhif 47 – Trafod y meysydd chwarae sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.</u>**

Roedd y Clerc wedi dweud ei bod wedi derbyn ceisiadau am uwchraddio'r parciau llai o faint. Gan taw Cross Hands yw'r blaenoriaeth ar hyn o bryd, roedd y Clerc wedi

argymell bod y parciau llai o faint yn cael eu cynnal a chadw fel bo'r angen. Mae pob un o'r parciau yn cael eu harolygu'n gyson.

*Roedd ED wedi cynnig bod y Cyngor yn dilyn argymhellion y Clerc.*

*Eiliwyd gan - JO.*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Cofnod rhif 48 – Trafod hyfforddiant i gynghorwyr.**

Hysbysodd y Clerc y Cyngor bod yr ymateb i'r hyfforddiant a gynigiwyd wedi bod yn siomedig. Mae hyfforddiant y Côd Ymddygiad yn ofynnol ac, i gydymffurfio â'r gyfraith, rhaid bod y Cyngor yn meddu ar gynllun hyfforddi a datblygu.

LW- mae hi wedi mynychu tri o'r cyrsiau a gynigiwyd, ac roedd am hysbysu'r cynghorwyr bod safon y cyrsiau wedi gwella'n fawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Cofnod rhif 49 – Derbyn Tystysgrif Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac adrodd ar y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2021**

Roedd y Clerc wedi cyfeirio at yr adroddiad a ddosbarthwyd ac, oherwydd nad oedd yn gallu cyflwyno cytundeb cyflogaeth y cyn-Glerc a bod y trefniadau PAYE yn annigonol, roedd hi wedi hysbysu'r Cyngor eu bod ond wedi derbyn archwiliad cymwys. Yn ogystal, roedd problemau ynghylch talgrynnu/ talgrynnu i lawr ar y Ffurflen Flynyddol.

**Cofnod rhif 50 – Dilysu penodi archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2021/2022.**

Ohwerwydd afiechyd yr archwilydd mewnol a benodwyd yn flaenorol, dywedodd y Clerc ei bod yn anodd dod o hyd i archwilydd newydd, a bod llawer o gynghorau yn wynebu'r un broblem. Roedd y Clerc wedi llwyddo cyflogi LHP Accountants, Caerfyrddin, ac wedi gofyn bod y Cyngor yn ystyried penodi'r cwmni hwn fel archwilydd mewnol y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2021/2022.

*Roedd ED wedi cynnig bod y Cyngor yn dilysu penodiad LHP Accountants fel archwilwyr mewnol.*

*Eiliwyd gan – RLD*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Cofnod rhif 51 – Cadarnhau llofnodwyr cyfrifon y Cyngor.**

Dywedodd y Clerc bod angen mwy o lofnodwyr ar gyfer cyfrifon banc y Cyngor. Ar hyn o bryd mae LW, LD a MJ yn lofnodwyr. Roedd JO a PO wedi cynnig bod yn lofnodwyr ychwanegol.

*Roedd DJ wedi cynnig bod LW, MJ, LD, JO a PO yn lofnodwyr.*

*Eiliwyd gan - ED*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Cofnod rhif 52 – Trafod prynu/prydlesu Kubota newydd.**

Roedd y Clerc wedi dweud nad oedd y Kubota presennol bellach yn ateb ei bwrpas, a taw peiriant John Deere newydd oedd y peiriant o ddewis. Roedd y Clerc wedi derbyn tri dyfynbris; y pris RRP yw £28,812.00:

1. RRP - £28,812.00 Pris - £20,950.00 a TAW
2. RRP - £28,812.00 Pris - £23,062.00 a TAW
3. RRP - £28,812.00 Pris - £22,000.00 a TAW

*Dywedodd y Clerc bod cwmni John Deere yn cynnig termau hurbwrcasu i brynu'r peiriant newydd.*

*Roedd ED wedi cynnig bod y Cyngor yn derbyn y dyfynbris cyntaf, yn seiliedig ar hurbwrcas, i brynu peiriant John Deere newydd.*

*Eiliwyd gan - PO*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Cofnod rhif 53 – Trafod y dyfynbrisiau i baentio gwedd allanol Neuadd y Tymbl.**

Derbyniwyd tri dyfynbris i baentio gwedd allanol y neuadd. Roedd y Clerc wedi derbyn dau ddyfynbris yn eithrio cost y sgafflad, ac un yn cynnwys cost y sgaffald.

1. £4500 (heb y sgaffald)
2. £4800 (heb y sgaffald)
3. £6950 a TAW (gan gynnwys y sgaffald)

Er gwaethaf addo galw ar lawer achlysur, dim ond un cwmni oedd wedi cyflwyno dyfynbris am sgaffald, sef pris o £1975 a TAW.

*Roedd PO wedi cynnig bod y Cyngor yn derbyn y dyfynbris sy'n cynnwys y scaffald.*

*Eiliwyd gan - SS*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Cofnod rhif 54 – Trafod gwneud cais am becyn datblygu gardd gymunedol oddiwrth Cadw Cymru'n Daclus.**

Roedd y Cadeirydd wedi gofyn bod yr eitem hon yn cael ei gohirio tan fod y Clerc a'r swyddog cyfleusterau wedi cael mwy o amser i gasglu'r wybodaeth berthnasol at ei gilydd.

*Roedd PO wedi cynnig bod Cofnod rhif 52 yn cael ei ohirio i ddyddiad arall.*

*Eiliwyd gan – JO*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**<u>Cofnod rhif 55 -Trafod cais am gymorth ariannol oddiwrth Cyfeillion y Coetir.</u>**

**Roedd y Cynghorydd Ruth Lloyd-Davies wedi datgan buddiant, felly roedd wedi mynd i'r ystafell aros tra bod y mater yn cael ei drafod.**

Mae Cyfeillion y Coetir wedi dod yn gorff cyfansoddiadol, ac wedi gofyn am gymorth ariannol i dalu am yswiriant a phrynu tŵls ychwanegol. Maen nhw wedi gofyn am £300.00.

Cafodd gwaith da y mudiad ei drafod.

*Roedd PO wedi cynnig bod Cyfeillion y Coetir yn derbyn y cymorth ariannol gwerth £300.00 a ofynnwyd amdano.*

*Eiliwyd gan - LD*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**<u>Cofnod rhif 56 - Derbyn adroddiadau'r Cynghorwyr.</u>**

Roedd y Cadeirydd wedi nodi y cynhelir ymgyrch casglu sbwriel ar ddydd Sadwrn Mehefin 25$^{ain}$ 2022.

**<u>Cofnod rhif 57 - Derbyn adroddiadau'r Cynghorwyr Sir.</u>**

Dywedodd y Clerc bod adroddiad ysgrifenedig LD wedi'i ddosbarthu.

Roedd DJ wedi dweud nad oedd wedi ysgrifennu adroddiad oherwydd ei bod yn delio â gwybodaeth sensitif, ac felly ni all ei gynnwys mewn adroddiad. Ychwanegoddd DJ ei bod wedi mynychu'r cyfarfod Deg Tref diwethaf.

**<u>Cofnod rhif 58 – Trafod materion personél.</u>**

**Ar yr adeg hon hon symudodd y cyfarfod i'r dirgel.**

Nododd y Clerc y bydd y Pwyllgor Personél yn cynnal adolygiad o’r lefel staffio presennol ym mis Gorffennaf. Nododd y Clerc bod rhedeg y neuadd a’r Cyngor yn dod yn fwyfwy anodd, a gofynnodd bod cytundebau dros-dro PM a WF yn cael eu hymestyn tan fis Medi, gan taw dyna pryd y mae’n disgwyl dechrau recriwtio swyddogion parhaol.

*Roedd ED wedi cynnig bod cytundebau dros-dro PM ac WF yn cael eu hymestyn tan gyfarfod mis Medi.*

*Eiliwyd gan – PO*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Diolchodd y Cadeirydd i’r clerc a’r holl staff am eu gwaith caled.**

- Trafodwyd mater yn cyfeirio at gwyn a wnaethpwyd.
- Trafodwyd mater arall yngylch mater staffio.

***Ar yr adeg hon gadawodd y cyfieithydd y cyfarfod.***

- Trafodwyd diogelwch staff.

*Roedd PO wedi cynnig, pe byddai unrhyw aelod o staff am gwrdd â’r Clerc, bod pob un ohonynt yn trefnu apwyntiad gyda hi ymlaen llaw.*

*LD – Wedi eilio*

*Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

- Trafodwyd cais gan gyn-weithiwr am ad-daliad o dreuliau, sef cyfanswm o £226.20. Nododd y Clerc bod y treuliau hyn eisoes wedi’i talu. Cyfarwyddwyd y Clerc i beidio talu’r treuliau, ac i hysbysu’r cyn-weithwr yn unol â hynny.

- Cytunwyd cynnal digwyddiad i hysbysu busnesau lleol am waith y Cyngor.

Bu trafodaeth ynghylch hyrwyddo’r Cyngor yn gyffredinol.

**<u>Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben am 21. 24yh</u>**

**Llofnod ............................................................ Dyddiad ...................................**

**Cadeirydd**